## 1 DADANSODDIAD SEFYDLIADOL

***BETH YW EICH AMCAN?***

Nod yr adran hon yw eich cynorthwyo i nodi'r canlyniadau yr hoffech eu sicrhau. Er mwyn gwneud hyn, dylech sicrhau eich bod:

- Yn glir iawn ynglŷn â gweledigaeth y project;
- Yn ymwybodol o'r modd mae'r project yn cefnogi amcanion strategol cyffredinol y brifysgol;
- Yn nodi gwerthoedd craidd y project yn eglur;
- Yn ymwybodol o'r ystyriaethau cydraddoldeb a chynaliadwyedd sy'n berthnasol i'r project;
- Yn nodi unrhyw risgiau posib a allai rwystro'r project rhag cael ei gyflawni;
- Yn hyderus eich bod wedi nodi amcanion cyffredinol y project.

| | **CANLLAWIAU BYR** |
|---|---|
| **GWELEDIGAETH** | Mae'r weledigaeth yn ymwneud ag amlinellu'r 'darlun mawr' ar gyfer y project a'i nod strategol cyffredinol. Dylai'r amlinelliad fod yn un byr.<br><br>**Cwestiynau i'w hystyried:**<br>• Beth yw gweledigaeth y newid?<br>• Beth fydd prif effaith y newid? |
| **CENHADAETH** | Yn yr adran hon dylid dangos y cysylltiad rhwng gweledigaeth gyffredinol y project a sut mae hynny'n cyd-fynd ag amcanion strategol cyffredinol y sefydliad a/neu'r adran.<br><br>**Cwestiynau i'w hystyried:**<br>• Sut mae'r weledigaeth yn cyd-fynd â strategaeth y sefydliad?<br>• Pa elfennau allweddol o strategaeth y sefydliad/adran sy'n rhaid eu hystyried? |
| **GWERTHOEDD** | Dylid nodi gwerthoedd craidd y project yn yr adran hon.<br><br>**Cwestiynau i'w hystyried:**<br>• Beth yw gwerthoedd cysylltiedig y brifysgol/y tîm?<br>• Pa werthoedd yn ymwneud â chydraddoldeb sy'n rhaid eu cynnwys?<br>• Pa werthoedd yn ymwneud ag effaith cynaliadwyedd ar y project sy'n rhaid eu mesur? |
| **Cydraddoldeb** | Amlinellwch unrhyw faterion yn ymwneud â chydraddoldeb a hygyrchedd sy'n rhaid ymdrin â hwy. |
| **YR IAITH GYMRAEG** (prifysgolion yng Nghymru yn | Nodwch unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n rhaid ymdrin â hwy. |

| | |
|---|---|
| unig) | |
| **Cynaliadwyedd** | Amlinellwch unrhyw faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd sy'n rhaid ymdrin â hwy. |
| **Risg** | Amlinellwch unrhyw risgiau posib a allai rwystro'r project rhag cael ei gyflawni neu sy'n rhaid i chi fod yn ymwybodol ohonynt ac ymdrin â hwy yn ystod y project, e.e. materion cyfreithiol a llywodraethol, materion ariannol, etc. |
| **AMCANION** | Yn seiliedig ar yr adrannau uchod, rhestrwch brif amcanion y project.<br><br>**Cwestiynau i'w hystyried:**<br>• Beth yw prif amcanion y project?<br>• Beth fydd y manteision i'r brifysgol/adran/ysgol/tîm os bydd y project yn llwyddiannus? |

| **ADNODDAU DADANSODDI DEFNYDDIOL:** |
|---|
| PESTLE<br>DADANSODDIAD SWOT<br>Dadansoddiad budd-ddeiliaid<br>Meincnodi<br>Dadansoddiad maes grym |